

# DYSGU DRWY CHWARAE

## Ceir bocsys

**Byddwch angen:**

- Bocsys cardfwrdd
- Siswrn
- Selotep
- Gwrthrych crwn (fel plât)
- Pinnau lliwio, paent, ac ati

**Dull:**

- Defnyddiwch focs digon mawr i'ch plentyn eistedd ynddo
- Torrwch y ddwy fflap hir ac un o'r rhai byr ar y bocs
- Cadwch y darnau hyn i greu'r olwynion a'r llyw
- I greu'r ffenest flaen, gallwch un ai dorri siâp yn y fflap fer sydd ar ôl neu blygu'r fflap yn ei hanner i greu ffenest

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# DYSGU DRWY CHWARAE - Ceir bocsys

flaen a boned. Glynwch ddarn y boned i'r bocs gan ddefnyddio tâp gludiog
- Gan ddefnyddio gwrthrych crwn (fel plât) gwnewch 5 cylch ar y fflapiau cardbord sydd wedi'u torri
- Torrwch y rhain allan a rhoi 4 yn sownd ar y bocs fel olwynion (2 bob ochr)
- Rhowch y cylch arall yn sownd y tu mewn i'r bocs fel llyw
- Os yw'r bocs yn rhy uchel i'ch plentyn ddringo i mewn ac allan ohono'n hawdd, torrwch hanner cylch yn un or ochrau hir i'w gwneud yn haws

## Pam ddim?

- Yn lle gwylio'r teledu, anogwch eich plentyn i ddarllen llyfr yn eu car newydd?
- Gadewch i'ch plentyn ddefnyddio'u dychymyg i greu rhywbeth sydd o ddiddordeb iddynt?
- Smaliwch eich bod yn teithio i dŷ ffrind neu berthynas? Siaradwch gyda'ch plentyn ynglŷn â beth allech chi ei weld ar y ffordd
- Beth am chwilio ar-lein ar gyfer mwy o weithgareddau plant sy'n defnyddio bocsys cardfwrdd?

**Manteision y gweithgaredd hwn:**

- Bydd yn helpu i ddatblygu creadigrwydd a dychymyg eich plentyn
- Bydd yn helpu i ddatblygu sgiliau iaith eich plentyn trwy drafod

**RHYBUDD:**
Mae angen goruchwyliaeth ofalus wrth ddefnyddio siswrn!